

'Elid am-daw amdanad'

gan Owain Llŷr Evans

I bobl gynefin â thrychinebau mae ambell drychineb yn rhoi gwaeth ysgytwad na'i gilydd i ni. Y dydd Mercher aeth heibio, nodwyd pen-blwydd y danchwa ym Mhwl yr 'Universal' yn Senghennydd ger Caerffili yn 1913: lladdwyd 439 o ddynion a bechgyn. Y dydd Mercher sy'n dod, aeth 60 mlynedd heibio ers llithro rhan o'r domen lo yn Aberfan ger Merthyr Tydfil, gan ddinistrio tai a chladdu rhan o Ysgol Pant-glas. Lladdwyd 116 o blant a 28 o oedolion yn y trychineb hwnnw.

Wedi'r naill drychineb a'r llall trawyd Cymru â mudandod trwm, fel y trawyd beirdd Cymru gan farw Llywelyn ar 11 Rhagfyr 1282. Yn ein hen lenyddiaeth (ar wahân i'r Beibl efallai) y ceir y mynegiant gorau o'r mudandod llethol hwnnw a ddirwasgodd ein cenedl ym mis Hydref 1913 a 1966:

Stafell Gynddylan ys tywyll - heno
Heb dân, heb wely;
Wylaf wers, tawaf wedy.

Stafell Gynddylan ys tywyll - heno
Heb dân, heb gannwyll;
Namyn Duw pwy a'm dyry pwyll.

Stafell Gynddylan ys tywyll - heno
Heb dân, heb oleuad;
Elid am-daw amdanad.

Yn gymysg â'r ing a'r gwewyr a ddaw yn sgil pob trychineb y mae'r syndod am fawredd haelionus y galon ddynol. I Senghennydd ac Aberfan, ac i bob man lle bu trychinebau tebyg yn ddiweddarach, llifodd rhoddion o bob cwr o'r byd, a chan bob gradd o bobl, i geisio cynnal a chefnogi'r galarus. Ond, saif angen dyfnaf y bobl hynny sydd yn weddiill wedi'r trychineb yn gwbl tu hwnt i allu arian i'w sicrhau. Y gymwynas fwyaf a allwn â phobl heddiw - sydd megis pobl Senghennydd 1913 ac Aberfan 1966 - wedi eu hamgylchynu â diflastod a thorcalon, yw troi ein cydymdeimlad yn eiriolaeth.

Awgrymog iawn yw'r linell: 'Elid am-daw amdanad'. Os deallais y linell yn iawn, gellid ei haralleirio fel hyn:

The Daily Mirror 20

THE MORNING JOURNAL WITH THE SECOND LARGEST NET SALE.

No. 3,113.

Printed at the M.P.O.

WEDNESDAY, OCTOBER 15, 1913

One Halfpenny.

TRAPPED IN A BLAZING MINE: "WORST DISASTER IN THE HISTORY OF THE WELSH COALFIELDS."



A terrible mine disaster, which will probably prove the most serious in the history of the Welsh coalfields, occurred yesterday at the Universal Mine, Senghennydd. A terrific explosion, which was heard at Cardiff, occurred while work was in full swing, and this was followed by fire, cutting off all escape for the unfortunate miners. (1) A view of the pithead, showing the crowd waiting for news. There were heartrending scenes, the thousands of the exiles apparently causing the waters to drip of the safety of their loved ones. (2) Collapsed watching rescue operations. Note the debris. (Daily Mirror photographs.)

'deled mawr ddistawrwydd i'th amgylchynu'. Ie, mawr ddistawrwydd gweddi, a distawrwydd sylweddol sicrwydd ffydd.

'Elid am-daw amdanad'. Boed i ni heddiw droi ein cydymdeimlad â phobl Gaza yn eiriolaeth; troi ein cydymdeimlad â'r bobl sydd yn dioddef yn sgil y rhyfela yn Wcráin yn eiriolaeth; troi ein cydymdeimlad â phobl Haiti, Burkina Faso, Gogledd Swdan, Mali, Niger, Syria, Yemen, Gweriniaeth Ddemocrataidd y Congo, Afghanistan, Ethiopia, Somalia a Myanmar yn eiriolaeth, er mwyn iddynt ymdeimlo

â choflaid cariad tragwyddol ein Duw. Estynnwn i Dduw'r hawl i ddefnyddio ein gweddïau gwael yn gyfryngau da i fynegi a gweithredu ei dosturi diwaelod yntau. Eiriolaeth ddaw â ni allan o ddryswch mawr ein prysuro gwyllt i ymateb a gweithredu. Trwy eiriolaeth sylweddolwn bwysiced yw'n rhan ni yn yr ateb.

Y mae llawer yn dweud, "Pwy a ddengys i ni ddaioni?" (Salm 4:6a BCND) Her i arall sydd gan y llawer, gan edrych o'u hamgylch yn rhan gyntaf yr adnod hon: PWY?

Gall troi cydymdeimlad yn eiriolaeth ein symud o'r PWY? i fedru cynnig ein hunain i fod yn gyfrwng ateb. Sylwch ar bwyslais yr ail hanner: Cyfoded llwyrch dy wyneb arnom, ARGLWYDD. (Salm 4:6b BCND)

Eiriolaeth, nid cydymdeimlad, sydd yn amlygu llwybr ymgysgriad. Down o afael 'ryw rith/ o grefydd, heb ei grym' (Dafydd Morris, 1744-91; Cff 291) dim ond i'r graddau yr offrymwn weddïau â llwyrach ymgysgriad ynddynt. 'ARGLWYDD, dyrcha arnom llwyrch dy wyneb' (BWM).

'Elid am-daw amdanad'. Dylid cofio hefyd nad pob trychineb sydd yn cael sylw'r cyfryngau. Mi gredaf fod y bardd Huw Jones yn codi cwestiwn pwysig, a'r cwestiwn hwnnw fydd yn cau pen y mwdwl ar y myfyrdod hwn:

A yw cannoedd o gyrff
Yn ein brawychu'n fwy nag un?
Oes rhaid i'r ddaear symud
Cyn ysgwyd ein bywydau ni?
(Barddas, rhif 205, Mai 1994)

'Elid am-daw amdanad'.
Gyda diolch i Cristnogaeth21

Gweddi wrth gofio trychineb Aberfan

O Dduw, wrth inni gofio trychineb Aberfan, drigain mlynedd yn ddiweddarach, rydyn ni'n cofio'n hiraethus am bawb a gafodd eu heffeithio gan y digwyddiad erchyll hwnnw.

Rydyn ni'n cofio'r plant a aeth i'r ysgol y bore hwnnw, ac na ddaeth adref at eu teuluoedd.
Rydyn ni'n cofio'r athrawon, y rhieni, y neiniau a'r teidiau, a'r holl deuluoedd y newidiodd eu bywydau am byth mewn un bore trasig a hunllefus.
Chwe deg o flynyddoedd wedi hynny, rydyn ni'n gwybod nad yw amser yn dileu'r golled, ac nad yw'r blynyddoedd yn gwneud yr hiraeth yn llai.

Arglwydd, heddiw rydyn ni'n cofio'r gymuned honno, a'r ffordd y daeth pobl ynghyd mewn oriau o dywyllwch a phoen.
Rydyn ni'n diolch am waith yr eglwysi yn Aberfan ac yn yr ardaloedd o gwmpas, am y gweddïau, y cysur a'r gefnogaeth ymarferol a roddwyd i deuluoedd oedd yn ceisio ymdopi â'r hyn oedd wedi digwydd.

Diolch am y drysau a agorwyd, am y bobl a wrandawodd, am y rhai a eisteddodd yn dawel gyda'r rhai oedd yn galaru, ac am bawb a geisiodd ddangos cariad pan nad oedd geiriau'n medru cyfleu'r galar. Helpa ni i gofio nad hanes yn unig yw Aberfan. Mae'n gof am bobl go iawn, teuluoedd go iawn, a chariad sy'n parhau hyd heddiw.

A heddiw, Arglwydd, rydyn ni'n cofio pawb sy'n dal i golli rhywun annwyl. Y rhai sy'n galaru dros blentyn, rhiant, brawd neu chwaer, neu ffrind. Y rhai sy'n teimlo'r golled yn arbennig ar ddyddiadau arbennig, cofio penblwyddi a diwrnodau cofiadwy yn flynyddol. Bydd yn agos atyn nhw, a helpa ni i fod yn bobl sy'n gwrandao, yn deall ac yn cynnig cefnogaeth heb orfod cynnig yr holl atebion, lle nad oes atebion i'w canfod. Cadw Aberfan yn ein calonnau, heddiw ac am byth. Yn enw Iesu Grist. Amen.

Aled Davies

EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU PWYLLGOR Y CHWIORYDD

CYDLYNYDD RHAGLEN DORCAS

Mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn dymuno penodi unigolyn sydd â gweledigaeth, sy'n frwdfrydig a threfnus er mwyn cydlynu a datblygu Rhaglen Dorcas yng Ngogledd Cymru.

Gan weithio'n agos gyda Chydlynnydd Dorcas ar gyfer De Cymru ac aelodau eraill o staff a gwirfoddolwyr, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cyfrannu at ddatblygu adnoddau ysbrydoledig, perthnasol ac ymarferol sy'n annog merched yn eu taith ffydd ac yn eu ffurfiant fel disgyblion. Bydd y cydlynnydd hefyd yn arwain astudiaethau Beiblaidd a digwyddiadau gafaalgarg ledled Gogledd Cymru ac ar-lein, ac yn helpu merched o bob oed i gysylltu, tyfu a gwasanaethu gyda'i gilydd, gan gefnogi gweinidogaeth ehangach yr Eglwys.

Mae hwn yn gyfle unigryw i wneud gwahaniaeth parhaol, gan helpu merched ledled Cymru wrth iddynt geisio dyfnhau eu ffydd, gwasanaethu eu cymunedau, a chyflawni galwad Duw ar eu bywydau, wrth ymarfer eu ffydd a'i rhannu mewn gair a gweithred.

Oriau: 21 awr yr wythnos.

Cytundeb: 3 blynedd, gyda'r 6 mis cyntaf yn gyfnod prawf.
Cyflog: £32,495.15–£34,453.90 pro rata, pwyntiau 30–34 ar raddfa cyflog EBC, yn ddibynol ar gymwysterau a phrofiad.
Bydd cyfle hefyd i ymuno â Chynllun Pensiwn EBC.

Lleoliad: Yn gweithio o adref, er y bydd disgwyl i'r Cydlynnydd weithio o leoliadau eraill o dro i dro.

Mae'r swydd hon yn ddarostyngedig i dderbyn Datgeliad Manwl drwy'r Cynllun Datgelu a Gwahardd (DBS), a dau dystlythyr boddhaol.

Mae Gofyniad Galwedigaethol Cristnogol, a Gofyniad Galwedigaethol iaith Gymraeg yn berthnasol i'r swydd hon.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch ag:

e-bost: swyddfa.office@ebcpw.cymru; ffôn: 02920 627465

Dyddiad cau: 4pm, 30 Hydref 2026

Diolch, Eiry



Dydd Sul, 11 Hydref, cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch ym Moreia, Llanfair Caereinion. Yn y gwasanaeth roedd yna fedyddio plentyn. Ac i ychwanegu at y llawenydd ac yn cyd-fynd â'r thema diolch cyflwynwyd tystysgrif i Mrs Eiry Elizabeth Jones am fod yn aelod cyflawn o'r capel am 60 mlynedd.

Yn fwy na hynny, ers blynnyddoedd lawer mae Eiry wedi bod yn un o aelodau mwyaf ffyddlon a gweithgar y capel

ac yn flaenllaw iawn mewn nifer o weithgareddau ac ymgyrchoedd i godi arian tuag at achosion da.

Braf iawn oedd cael ei llongyfarch a'i chydabod o flaen llond capel o bobol oedd yn cynnwys ei chymar a nifer o'i ffrindiau.

Diolch yn fawr, Eiry, a phob bendith.

Euron Hughes



Eglwys Bresbyteraidd Cymru
The Presbyterian Church of Wales

Prif Siaradwr

Parch Ddr Rosa Hunt

7 YH - 9 YH

TACH 9

2026

AR ZOOM

Sganiwch y còd QR i ymuno neu am ragor o fanylion cysylltwch â: Owen.Griffiths@ebpcw.cymru

Meeting ID: 851 2051 9280
Passcode: 748113



Cynhadledd

rithiol am ddim i rannu syniadau ac i hybu cenhadaeth yr Eglwys yn y gymuned adeg y Nadolig

Seminarau:

- Y Plygain
- Gwaith plant
- Anerchiadau'r Nadolig
- Gweinidogaeth pobl hŷn
- Bod yn greadigol / y cyfryngau cymdeithasol
- Crefft y Nadolig
- Y Banc Syniadau - cyfle i rannu a thrafod syniadau

ADEG Y

NADOLIG

CREU CYSYLLTIADAU:

CREFYDD A'R CYFRYNGAU YNG NGHYMRU

Dydd Llun 2 Tachwedd 2026
13:30 - 18:00

 Prifysgol Bangor, LL57 2DG

Dyddiad: Dydd Llun, 2 Tachwedd
Lleoliad: Neuadd Powis, Prifysgol Bangor LL57 2DG

Tocynnau: Am ddim drwy Eventbrite

<https://www.eventbrite.co.uk/e/creating-connections-religion-and-the-media-in-wales-bangor-tickets-2001023159135>

Ymholiadau: info@religionmediacentre.org.uk



Ymunwch â ni ym Mhrifysgol Bangor ar gyfer ein digwyddiad Creu Cysylltiadau nesaf, lle bydd arweinwyr a sefydliadau ffydd yn cwrdd â chynrychiolwyr y cyfryngau lleol, i feithrin cysylltiadau newydd a chael dealltwriaeth ddyfnach o'r ffordd y mae crefydd a chredoau wedi'u plethu i fywyd Cymru.

Bydd nifer o weithwyr proffesiynol y cyfryngau o'r prif sianeli teledu a radio yn bresennol, ynghyd â golygyddion a gohebwyr y cyfryngau print ac ar-lein, i ateb cwestiynau ac egluro sut maent yn gweithio.

Bydd cynrychiolwyr ffydd yn rhannu gwybodaeth am eu gweithgareddau ac yn cyflwyno straeon o'u cymunedau.

Cynhelir y digwyddiad gan y **Religion Media Centre**, sefydliad diduedd ac annibynnol sy'n ceisio meithrin rhagor o gydlyniant a dealltwriaeth mewn cymdeithas drwy helpu'r cyfryngau i adrodd ar grefydd a'i deall.



Bydd llawer ohonom yn meddwl am fis Hydref fel cyfnod y Cyfarfodydd Diolchgarwch, a fu, ar un cyfnod, yn britho'n dyddiaduron, ond sydd bellach yn llai niferus yn ein plith. Mae hynny'n sicr yn wir am yr ardaloedd trefol ac ôl-ddiwydiannol. Tybed pa ganran o ffermydd ein gwlad sy'n plannu tatws bellach, neu'n hau gwenith, barlys a cheirch? Daeth cynydau newydd i'n siroedd, a phrin bod ffermydd teuluol yn gefndir i ddisgyblion ysgolion heddiw. Bellach, bydd y mwyafrif ohonom yn galw heibio archfarchnad fawr i gael cynnych gardd, neu stondin lysiau a ffrwythau, os ydym yn ffodus i fyw wrth farchnad leol.

Yn y cyfnod yma rhwng canol mis Medi a chanol mis Hydref, bydd y Wasg yn gwrando ar ffanffer y pleidiau gwleidyddol. Bydd y naill fel y llall yn hawlio'u bod yn cynnig yr atebion priodol i ofidiau gwledydd Prydain, ac yn dilorni'r pleidiau eraill am ba reswm bynnag sy'n eu taro. Fel y stondinau ym marchnadoedd y trefi, mae'r rhethreg slic yn addo cymaint, heb feddwl gormod am gost ac effeithiolrwydd eu polisïau. Caiff y papurau dyddiol a'r newyddiadurwyr gwleidyddol lawer o hwyl yn dyfarnu'r 'best in show'. Pawb â'i fys, sbo!

Rhwng bod y ffermydd wedi gweld cynydau llai eleni ac effaith y dagfa forwrol wrth gludo olew yn y Dwyrain Canol, bydd pob economi'n gweld prinder bwyd, a hynny'n golygu costau uwch i'r sawl sy'n ymweld â'r siopau i ddarparu bwyd i'w teuluoedd. Bydd y mwyafrif ohonom yn deall na ellir gwario arian nad oes gennym, a bod yn rhaid i'r gwariant gadw o fewn terfynau'r gyllideb deuluol. Bydd teuluoedd yn derbyn fod yn rhaid lleihau eu gwariant wrth weld costau tanwydd yn benodol, ond bwydydd a nwyddau yn gyffredinol, yn codi yn eu pris. Er hynny, gwyddom fod

economiâu Ewrop, ar y cyfan, yn medru ymdopi â hynny.

Pe byddem yn byw mewn nifer o wledydd ar gyfandir yr Affrig, neu mewn rhai ardaloedd mewn gwledydd fel India a Phacistan, byddem wedi gweld sawl haf yn mynd heibio heb law digonol neu danwydd priodol. Wrth i bobl gwledydd Prydain ofni am bris tanwydd ac effaith hynny ar gostau bwyd, cofiwn am y rhai sy'n byw mewn gwledydd fel Lesotho, Eritrea, Chad ac Ethiopia. Ein greddf yw gwarchod

ein hunain yn gyntaf, ond ein galwad yw gofalu am y sawl sydd â llai o fodd, darparu dros y gwannaf mewn cymdeithas, a chynnig ymgeledd yng ngwledydd tlotaf y byd.

Mae'n rhyfedd sut y bydd rhai gwleidyddion yn hyrwyddo hunanoldeb ar draul lletygarwch a meddylfryd dyngarol. Byddwn yn cyffesu ein pechodau fel unigolion, ond yn byw'r Efengyl mewn cymdeithas sy'n ceisio gweld a chlywed cri'r anghenus yn ein byd.



Mae penwythnos Esgyn ar gyfer ieuenctid 11-16 oed bellach ar y gorwel! Gall ieuenctid iau ymuno â ni unwaith eto yng Nghanolfan Rock UK Treharris ar gyfer penwythnos llawn anturiaethau newydd, cyfle i wneud ffrindiau newydd, amserau o addoliad, a darganfod mwy am antur dilyn Iesu. Gallwch ddarganfod mwy ac archebu lle ar wefan www.ubc.cymru

Gwasanaeth ar gyfer Sul Adferiad 2026 gan Siôn Aled Owen

Cyflwyniad: Croeso i'r gwasanaeth arbennig hwn ar gyfer pymthegfed Sul Adferiad Cymru. Achlysur yw'r digwyddiad blynyddol hwn i gofio pawb sydd mewn caethiwed i unrhyw sylwedd, unrhyw dueddiad, unrhyw sefyllfa, unrhyw berthynas, ac i ddathlu'r rhyddid mae cymaint wedi'u harwain iddo dros y blynyddoedd, drwy waith sefydliadau fel y Stafell Fyw. Yn bwysig iawn, mae hefyd yn gyfle i bawb sy'n parhau'n gaeth, ac efallai heb gyfaddef hynny hyd yn oed wrthynt eu hunain, gychwyn ar y daith at ryddid, llwybr sy'n aml yn anodd ac yn serth, ond sy'n llwybr anturiaeth a all newid bywyd. Gweddïwn felly am fendith ar ein cofio, ar ein dathlu, ac am ein rhyddid ein hunain:

Ein Tad, yn y byd llawn rhyfeddod hwn, er gwaetha'r holl bethau da a greaist i ni eu mwynhau, rydym hefyd mor aml yn cael ein rhwydo gan gaethiwed – weithiau i bethau sy'n hanfodol ddrwg, weithiau i bethau a greaist yn dda ond y gwnaethom ninnau gamddefnydd ohonynt. Cofiwn ger dy fron heddiw bob un a ddaliwyd, ac sy'n parhau wedi'u dal yn rhwyd caethiwed, ac yn arbennig dros y rhai nad ydynt eto'n cydnabod eu gormes nac felly'n ceisio cymorth. Gweddïwn y byddi'n defnyddio sefydliadau fel y Stafell Fyw i gynnig y cymorth hwnnw a'r gefnogaeth barhaus sy'n cynnig ac yn cynnal rhyddid.

Dathlwn y ffaith bod cymaint o'r rhai a fu'n gaeth wedi canfod rhyddid. Diolchwn am y rhai sy'n cyd-gerdded â hwy ar lwybr rhyddid ac yn eu calonogi i barhau pan fo'r ffordd yn anodd, fel y bydd i bawb mewn gwahanol amgylchiadau gydol oes. Dathlwn oboith.

Yn olaf, gweddïwn ar i ti gynnal ein rhyddid ninnau, ac os ydym yn parhau'n gaeth i unrhyw beth mewn unrhyw ffordd, dyro i ni dy nerth di, achos ni all ein nerth ninnau hebot dycio dim, i fentro ceisio'r cymorth sydd i'w gael i dorri drwy'r rhwyd. Ac os ydym yn ddall i'r lle rydym, agor ein llygaid i fentro gweld.

Hyn oll a ofynnwn yn enw'r Un a brynodd ein rhyddid eithaf, Iesu Grist. Amen.

Emyn:

O clyw fy ngweddi, Grist, ac ateb hi –
Tydi yn unig all fy adfer i;
cydnabod wnaif y gwendid fu cyhyd
wrth ildio f'oes i chwantau gwag y byd.

O tyrd ar frys, gafaela yn fy llaw
a'm harwain gam wrth gam nes
cyrraedd draw
at drothwy'r wawr pan gilia'r nos ymhell
a bendith nef yn addo bywyd gwell.

O aros mwy, mae d'angen di bob dydd
cans hebddot Ti ni fyddaf byth yn rhydd;
ond gyda Thi caf chwalu rhwymau f'oes
a diosg baich pob ddoe a barodd loes.

O clyw bob bore gri fy ngweddi daer
am nerth i'r dydd, a'th gwmni imi'n gaer,
fel gallwyf gefnu ar bleserau'r llawr
wrth ymhyfrydu 'ngrym dy gariad mawr.
Eirian Dafydd

Darlleniad (Llais Benywaidd): Ioan 8:31–36

Myfyrdod (Siôn Aled):

Mae modd darlunio caethiwed mewn amryfal ffyrdd. Eisoes defnyddiais y ddelwedd o rwyd, ac mae eraill wedi sôn am fod dan warchae, ac o ymbalfalu drwy niwl sy'n mygu.

Ond un o'r delweddau mwyaf pwerus welais innau i gyfleu artaith caethiwed oedd poster yn Ffrainc 'nôl yn yr wythdegau. Llun syml iawn ydoedd, o botel win o wydr clir gyda dyn yn gaeth o'i mewn. Llun syml, ond a oedd yn cyfleu cymaint. Gallai'r dyn weld popeth a oedd yn digwydd o'i gwmpas yn y byd y tu hwnt i'r botel, ond ni allai fod yn rhan ohono. Gallai symud, ryw gymaint, o fewn y botel, ond ni chaniatâi ei gwddw cul fyth iddo ddianc.

Ond er mai cyfeirio'n amlwg at gaethiwed i alcohol a wnaï'r poster, gwelaf ynddo bellach ddarlun ingol o bob caethiwed, gan gynnwys y rhai sy'n fwy 'derbyniol' (neu hyd yn oed, gwaetha'r modd, i'w cymeradwyo gan rai), megis gorweithio ac ariangarwch.

Ond uwchlaw'r llun, yn Ffrangege wrth gwrs, yr oedd adnod o'r darlleniad a glywsom heddiw: 'os yw'r Mab yn eich rhyddhau chwi, byddwch yn rhydd mewn gwirionedd'. Ac fe drefnais gyhoeddi fersiwn Cymraeg o'r poster gyda'r adnod honno. Mae gen i gopi rywle – ond bod rhywle'n golygu cymaint o leoedd erbyn hyn!

Ymhlith yr hen emynau anghofiedig a gasglodd Lleuwen Steffan, mae un sy'n dechrau â delwedd drawiadol iawn: 'Mi fûm wrth ddrws uffern yn curo / yn ceisio cael myned i mewn' a gall llawer ohonom a brofodd uffern caethiwed uniaethu â'r darlun hwnnw. Ond, er dechrau â'r darlun erchyll yna, mae'r emyn yn mynd ymlaen i gynnig y gobaith o fynd drwy ddrws arall i ryddid.

Ac allwedd y drws hwnnw yw gobaith: tra byddwn yn dal gafael ar hwnnw, pa mor ddwfn bynnag fo'n caethiwed, fe fydd y drws yno a bydd modd ei agor. Ac mae hynny nid yn unig yn neges ar gyfer y rhai sy'n parhau mewn caethiwed, ond ar gyfer y rhai sydd am ryddhau eraill hefyd, sef bod rhaid cynnal gobaith achos dyna'r allwedd hanfodol.

Cymysgu delweddau: yr hyn na ddylai bardd, nac awdur na phregethwr byth ei wneud, ond yn achos caethiwed, mae'n anorod: y rhwyd, y botel, drws uffern, ceisio'r allwedd a llawer mwy. Achos mae caethiwed yn ein dal mewn amryfal ffyrdd. Ond mae rhyddid yn symlach, rywsut, ac ar yr un pryd yn ehangach. Wna i ddim mentro cynnig delwedd o ryddid, dim ond ein gwahodd i gyd, beth bynnag ein sefyllfa, i gamu drwy'r drws yna, a phrofi'r fendith sydd y tu hwnt.


Yn ein byd a'n bywydau cynyddol brysur â llawn sŵn, gadewch i ni dreulio munud mewn tawelwch i fyfyrion ar yr hyn y buom yn ei ystyried heddiw.

Emyn: Wrth i ni agosáu at ddiwedd ein gwasanaeth, rwyf wedi dewis emyn a gyfansoddais ym 1982, ac mae'n adrodd fy mhrofiad yn union fel oedd hi: teimlo fy mod yn suddo yn 'y dyfroedd tywyll du' ond, heb fychanu profiad y dyfnder, canfod yn y pen draw, draeth tangnefedd: Anfon, Arglwydd, dy oleuni (*Caneuon Ffydd*, 727)

Gollyngiad O bob caethiwed a brofwn, o Dduw, gwared ni, ac am bob rhyddid a gawsom, derbyn ein diolch o waelod calon, ac ym mhob cyfle a gawn i rannu rhodd rhyddid ag eraill, rho i ni'r ewyllys i rannu'r rhodd honno hyd yr eithaf. A gras ein Harglwydd Iesu Grist a chariad Duw a chymdeithas yr Ysbryd Glân a fo gyda ni oll o'r awr hon a hyd byth. Amen.

Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26



Codi'r Llen 40

Ymson o ddiolch

Heddiw, dwi eisiau diolch a chofio.

Cofiaf am ferched Jerwsalem a weithiodd yn ddiwyd gyda'u tad, Salum, i ailadeiladu'r muriau. Merched a fu'n ddigon cryf i beidio ofni bod yn rhan o'r gwneud, a gymerodd eu cyfrifoldeb o ddifrif, a chymryd rhan allweddol yn yr atgyweirio.

Mae eraill – nifer fawr ohonynt – ac mae fy meddwl yn drymlwythog ohonynt, y rhai a aeth o'n blaenau ni heddiw. Clywsom eu hanesion; gwelsom eu hamgylchiadau a'u rhinweddau amrywiol. Clywsom hefyd eu geiriau a'u gweld yn sefyll yn gadarn yn erbyn y drwg.

Cofiaf am Miriam, a roddodd fawl i Dduw am arwain y bobl drwy'r Môr Coch. Diolch iddi am fy nghymell i feddwl bod rhinwedd mewn codi llais i glodfori. Cofiaf am Siffra a Pua, a wrthododd wrando ar lais y gormeswr ac arbed bywydau diniwed y babanod bach. Dysgais fod angen anwybyddu awdurdod anghyfiawn a gweithredu heb betruso weithiau. Cofiaf am Rahab, a guddiodd yr ysbïwyr, er bod hynny'n beryglus iddi. Drwyddi, fe'm hatgoffwyd y gallwn gydio mewn dewrder hyd yn oed pan fo hynny'n anodd.

Cofiaf am Debora yn esgyn uwchben pawb â'i doethineb, a hynny mewn cyfnod pan oedd gwir angen arweiniad ar y bobl. Dangosodd hi beth yw siarad ag argyhoeddiad. Cofiaf hefyd am Jael, a gymerodd gamau herfeiddiol. Heriodd fi i weld bod dewrder yn gorfod gwisgo clogyn hagr weithiau. Cofiaf am Ruth, a ddangosodd ffyddlondeb diamheuol, gan adael popeth oedd yn annwyl iddi er mwyn bod yn gyfaill triw. Diolch fy mod wedi

gweld drwyddi hi sut y gall ffydd a chariad fod yn rymus yn ogystal â hyfryd.

Dyna Abigail wedyn, a weithredodd yn graff i atal tywallt gwaed. Dysgais drwyddi am wyleidd-dra, heddychiaeth, a dirnadaeth. Ac Esther hithau, a safodd o flaen y brenin er ei bod yn llawn ofn. Clywais ei hymbil a sylweddoli bod rhai adegau sy'n galw am weithredu, yn hytrach na pheidio. Hefyd yn aros yn fy nghof y mae Fasti, a'i "na" cadarn yn dangos pa mor bwysig yw peidio ildio.

Mae gwaddol y merched hyn yn fy nghofleidio ac rwy'n gorfod ymlonyddu i ystyried. Pa gamau rydw i'n eu cymryd i droedio llwybr cariad mewn gwirionedd? Ydw i'n gwneud popeth yn fy ngallu i weithredu pan fo angen? Ydw i'n amddiffyn y gwan, cyn creu heddwch pan fo anghydfod? Ydw i'n cymryd camau yn erbyn tlodi, yn amddiffyn hawliau pobl, yn siarad dros y gwir? Ydw i'n codi llais?

Efallai, yn y byd hwn, na chaf gyfle i ddangos fy newrder o flaen teyrn, nac adeiladu muriau rhyw ddinas fawr. Hwyrach na chaf gyfle i fod yn arwr, ond eto, daw'r cyfleon dyddiol i fod yn blentyn i Dduw. Clywaf yr anogaeth: 'bydd wych, bydd ddoeth, bydd dda', a dyheaf am wneud yr hyn sy'n plesio'r Dwyfol. Ydw, rydw i'n rhan o linach merched ddoe, ac felly rhoddaf ddiolch.

Holi

- Beth sydd wedi eich taro chi fwyaf wrth fyfyrio ar hanesion y merched hyn i gyd?
- Oes un cymeriad yn sefyll allan ichi? Os oes, pam?
- Pe bai gofyn ichi greu brawddeg i groniclo eich ymateb i safiad a dewrder y merched hyn, beth fyddai'r frawddeg honno?
- Beth yw'r neges fwyaf inni heddiw?
- Ydy'r myfyrion a'r astudio wedi eich newid chi, neu eich symud chi, mewn rhyw ffordd? Beth am eich meddwl, eich agwedd, eich calon, a'ch ffydd?

Gweddï

Dduw lôr anfeidrol ac annwyl, diolchwn am yr hanesion sydd wedi dod yn fyw o flaen ein llygaidd. Ar hyd y ffordd, mae rhai cymeriadau wedi ein synnu, wedi toddi ein calonau, wedi ein herio; mae rhai wedi peri inni holi ac amau, a rhai wedi ein hatgyfnerthu a'n grymuso.

Rydym fel meidrolion yn hoff o stori dda a chael ein diddanu. Cawn ein difyrnu gan gymeriadau lliwgar. Yr hyn sydd wedi ein syfrdanu yw dy fod Ti'n gweithredu drwy gymaint o bobl amrywiol ac mewn amryfal ffyrdd. Gad inni weld a sylweddoli felly fod stori pob un ohonom yn bwysig yn dy olwg. Rwyf yn ein gweld a'n hadnabod, yn gwybod am ein gwendidau a'n cryfderau. Gwyddost am ein dyheadau a'n siomedigaethau, y goleuni sydd ynom a'r tywyllwch weithiau. Cryfha ni i wneud dy waith ac i fod, tra byddom, fyth yn gyfryngwyr dy gariad. Amen.

Siân Meinir



Caniadaeth y Cysegr

Sul, 25 Hydref, am 7:30yb a 4:30yp

Cymanfa Ganu Undebol
Pontarddulais a'r Hendy, dan
arweiniad D. Huw Rees

Oedfa Radio Cymru

Sul, 25 Hydref, am 12:00yp

Gwasanaeth o dan arweiniad
Siôn Aled Owen - Sul Adferiad

Cyhoeddiadau Radio a Theledu, 25 Hydref 2026

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 25 Hydref am 7.30yh

Bydd Rhodri Gomer yng nghefn gwlad sir Benfro yn nodi tymor y Diolchgarwch ac yn dathlu llawnder y cynhaeaf. Cawn fwynhau canu bendigedig o Eglwys Gadeiriol Tyddewi.

O'r galon

gan Hywel Edwards

**‘Pan ddaw Mab y Dyn, a gaiff ef ffydd ar y ddaear?’
(Luc 18:7)**

**‘Ond ffrwyth yr Ysbryd yw cariad, llawenydd,
tangnefedd, goddefgarwch, caredigrwydd, daioni,
ffyddlondeb, addfwynder, hunanddisgyblaeth.’
(Galatiaid 5:22)**

‘Fe liciwn i petai gen i ffydd fel chi’ – dyma un o’r ymatebion rwy’n ei glywed ar ddiwedd oedfa o bryd i’w gilydd. Braf ar yr un llaw fod gwrandawriad i’r bregeth, ond dim cystal os mai gwneud i rywun deimlo’n annigonol oedd yr effaith na fwriadwyd. Mae’r cwestiwn yn bwrw goleuni ar ddiffyg cyffredinol yn ein plith, ie – o ffydd ond, yn fwy felly, amgyffred beth yw ffydd.

Magwyd Dad a Mam ym mryniau Mizoram, ac rwy’n gyfarwydd â hanesion, ac ambell lun, am groesi pontydd rhaff dros geunentydd enbyd. Ystyriwch am ennys sut mae cyrraedd yr ochr draw yn ddiogel. Beth sy’n bwysicaf:

1. faint o ffydd sy gen i yn y ddyfais a’m gallu i’w chroesi, ynteu
2. strwythur a chryfder gwneuthuriad y bont?

Wel, yr ail wrth gwrs. Os nad yw’r bont yn ddiogel ac yn medru dal fy mh wysau, dydi o ddim ots yn y byd faint o ffydd a hyder sy gen i. Ac, wrth gwrs, os yw’n ddiogel, dydi o ddim ots ydw i’n ei chroesi’n betrusgar neu’n llamu’n llawen.

Yn Luc 18:1–8, cawn Iesu yn adrodd dameg am weddw yn plagio barnwr anghyfiawn am ddedfryd gyfiawn. Yn y diwedd mae’r barnwr yn ildio i’w hachos am iddo’i blino hi cymaint. Yna daw’r her gan Iesu: ‘pan ddaw Mab y Dyn, a gaiff ef ffydd ar y ddaear?’ (adn. 8).

Be wnewch chi o hyn? Yr un gair sydd yma – ffydd – ag sydd yn yr adnodau hyfryd am ffrwyth yr Ysbryd – ffyddlondeb, sef *pistis*. Yn ramadegol, enw ydyw, nid berf: rhywbeth sydd, nid rhywbeth i’w wneud.

Yn nhermau’r Testament Newydd mae ffydd ynghlwm â gras, ac yn rhodd gan Dduw. Yn yr Hen Destament mae’n rhan annatod o bwy a beth yw ein Duw: ‘Aeth yr ARGLWYDD heibio o’i flaen, a chyhoeddi: “Yr ARGLWYDD, yr ARGLWYDD, Duw trugarog a graslon, araf i ddigio, llawn cariad a ffyddlondeb”.’ (Exodus 34:6)

I’r Cristion, wedi iddo neu iddi ddod i gredu a chyffesu Iesu’n Arglwydd, does dim gwahaniaethu rhwng ffydd a ffyddlondeb, credu, ymddiried a dyfalbarhau. Nid teimlad o hyder dros dro, bod yn ffyddlon ac aros yn ffyddlon ydyw.



*Ysgythriad ‘Pont Dros Afon’ ym Mizoram,
gan y Parch. J. Meirion Lloyd, a ymddangosodd yn ei
gyfrol Ar bob bryn uchel yn 1954*

Mae hyn, wrth gwrs, yn heriol yn ei ffordd ei hun, ond fe ddylai ein bwrw i ddibynnu arno ef ac nid ein nerth ein hunain.

A dyma lle daw ffrwyth yr Ysbryd i’n cynorthwyo. Mewn cyferbyniad â gweithredoedd y cnawd, mae’r ffrwyth yn rhinweddau sy’n deillio ohono Ef, rhinweddau y mae am eu meithrin ynom drwy ras a marw i’r hunan, wrth i ni aros yn y wir winwydden.

Ac os cofiwn mai gwaith sancteiddiol yr Ysbryd yw ein gwneud yn debycach i Iesu, ar ddelw ein creawdwr (Colosiaid 3:10), daw yn destun rhyfeddod deall mai ei ffydd a’i ffyddlondeb Ef y mae’r Ysbryd am ddwyn i ffrwyth ynom:

Am hynny, gan fod cymaint torf o dystion o’n cwmpas, gadewch i ninnau fwrw ymaith bob rhwystr, a’r pechod sy’n ein maglu mor rhwydd, a rhedeg yr yrfa sydd o’n blaen heb ddiffygio, gan gadw ein golwg ar Iesu, awdur a pherffeithydd ffydd. Er mwyn y llawenydd oedd o’i flaen, fe oddefodd ef y groes heb ddiffygio, gan ddiystyru gwarth, ac y mae wedi eistedd ar ddeheulaw gorseddfainc Duw. Meddyliwch amdano ef, a oddefodd y fath elyniaeth ato’i hun gan bechaduriaid, rhag i chwi flino neu ddigalonni. (Hebreaid 12:1–3)

Er ein mwyn, bu i Iesu nid yn unig groesi’r ceunant, ond Ef yn awr yw’r bont.

Fe garwn felly droi’r ymateb i’m pregeth, yn weddi i gloi: Arglwydd Iesu, fe liciwn i petai gen i ffydd fel ti. Amen.

Encil Hydref y Weinidogaeth Iacháu



Hyfryd oedd cyrraedd Trefecca ganol dydd Mawrth, 8 Medi, ar ôl teithio o wahanol rannau o Gymru a chwrdd â phymtheg o selogion yr encil. Ar ôl cinio, cafwyd croeso twymgalon gan Nerys Rowlands a eglurodd amserlen yr encil a maes ein hastudiaeth eleni, sef Gras Duw.

Croesawodd Wayne Adams, y warden presennol, ni'n gynnes gan egluro bod y ganolfan bellach yn croesawu llawer o leygwyr i gynnal encil. Ceisid rhoi cefndir crefyddol a hanesyddol y lle iddynt er mwyn codi ymwybyddiaeth o'n treftadaeth.

Fe'n didolwyd yn ddau grŵp yn ôl ein hiaith, gyda'r Parch Gwilym Wyn Roberts, Caerdydd, yn arwain astudiaeth feiblaidd y Cymry Cymraeg yn y llyfrgell, a'r Parch Huw Lewis yn goruchwyllo'r grŵp trafod.

Ar ôl swper, cawsom fyfyrddod hyfryd oedd wedi ei baratoi gan y Parch. Margaret Quale o Lerpwl, oedd yn methu bod yn bresennol eleni, wedi ei ddarllen y Parch. Mary Turnock. Nos Fawrth, cafwyd myfyrddod gan Arthur Rowlands, ac yna fe ddarllenodd fyfyrddod hyfryd gan y Dr Peter Ashton. Nos

Fercher cafwyd myfyrddod gan Sheila Wyatt, cyn cyfnod o ganu emynau.

Arweiniwyd ein boreol weddi gan wahanol aelodau. Deisyfiadau'r Brawd Lawrence oedd yn procio'n cydwybod fore Mercher. Drannoeth, fe'n sbardunwyd i godi ein lleisiau mewn cân gyda'r bytholwyrdd 'Amazing Grace' dan arweiniad Gwenfron Jones a chawsom hanes y cyfansoddwr gan Nesta Davies.


Yn ein hastudiaeth feiblaidd buom yn trafod sut y dylem gyflwyno gras Duw, â 98% o'n haelwydydd yn ddi-grefydd a niferoedd fawr o'n heglwysy'n cau. Dim ond 5% sy'n mynychu oedfaon ac ychydig o weinidogion sydd ar gael, ac fe welir methiant i drosglwyddo'r ffydd. Daethom i'r casgliad bellach na ofala NEB lawer am ras! Nid yw'r gair yn digwydd yn Beibl. net, ac nid yw bellach yn golygu fawr ddim i lawer. Ond pan fyddant yn gresynu, dywedant: 'Mae isio gras efo ti!'

Yn ystod y prynhawniau, hyfryd oedd cael ymweld â llefydd diddorol yr ardal – Talgarth, y Gelli Gandryll, Llyn Syfaddan, Aberhonddu – a chanolbwyntio ar y gweledol yn hytrach na'r ysbrydol.

Ar ddiwedd y dydd hyfryd oedd ymgynnull yn weddigar i fyfyrddod a chanu cyn swper – dan ofal Nerys Rowlands ar y nos Fawrth a Bethan Richards ar y nos Fercher. Roedd ein cwpan yn llawn pan wnaeth Margaritta Lewis ein harwain mewn gweddïau yn y Capel Bach nos Iau, a hithau'n dechrau nosi.

Fore Iau, cawsom gyfle i rannu profiadau a gwerthfawrogi cymaint o fudd oedd codi ein lleisiau mewn caniadaeth, a chael arweiniad mor rymus i'r Gair drwy law ein harweinwyr. Coron ein hencil oedd nesáu at Fwrdd yr Arglwydd dan law gofalus y Parch. Nerys Tudor, a ddewisodd emynau myfyrddod i'n hysbrydoli i barhau â'n gweinidogaeth. Dychwelsom adre wedi ein hadnewyddu. Mawr yw ein diolch i staff y ganolfan am ein bwydo'n gorfforol ac yn ysbrydol.

Nesta Davies



Heb os...

Cyrol o bregethau a chasgliad o emynau

Desmond Davies



Fe'ch gwahoddir yn gynnes i lansiad

Heb os...

gan Desmond Davies

Cyrol o bregethau a chasgliad o emynau

Festri Capel y Tabernacl, Caerfyrddin
Dydd Sadwrn, 31 Hydref,
am 3.00 o'r gloch y prynhawn.



Cyhoeddiadau'r Gair

Anfonwch eich cyfraniadau at y golygyddion:

Aled Davies: aled@ysgolsul.com

Huw Powell-Davies: huw@cennad.cymru

Tîm Golygyddol: Aled Davies, Huw Powell-Davies a Marian Beech Hughes (golygydd iaith)

Gwefan: www.cennad.cymru | **Facebook:** CennadCymru | **X:** @CennadCymru

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan **Eglwys Bresbyteraidd Cymru** ac **Undeb Bedyddwyr Cymru**.

Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol yr enwadau hyn.

Os ydych yn poeni am unigolyn neu sefyllfa ac angen cyngor diogelu, cysylltwch â'r Panel Diogelu Cydenwadol www.panel.cymru

ar **01745 817584**

neu **07957 510346**

yn ystod oriau swyddfa

neu **Thirtyone:eight** ar **0303 0031111**

am gyngor tu allan i oriau swyddfa.

